**Papur Gwyn Amaeth (Cymru) Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

| Diogelu Data |
|---|
| Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.<br><br>Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.<br><br>Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth<br><br>Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd. |

| Cyfrinachedd |
|---|
| Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.<br>**Os nad ydych chi'n dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad ymddangos ar unrhyw ddogfennau rydyn ni'n eu cynhyrchu, nodwch yma☐**<br><br>**Os nad ydych chi'n dymuno i'ch ymateb ymddangos ar unrhyw ddogfennau rydyn ni'n eu cynhyrchu, nodwch yma☐** |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Aled Roberts** |
| **E-bost:** | **aled.roberts@cyg-wlc.cymru** |
| **Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?** | **Sefydliad** |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi neu'ch sefydliad wedi eich lleoli yng Nghymru?** | **Ydy** | |
| **Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, ydych chi'n siarad Cymraeg?** | Ydw | |
| | Nac ydw | |
| **Hanner cyntaf eich cod post (4 digid)** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Nodwch pa un o'r rhain sy'n eich cynrychioli chi neu'ch sefydliad orau (dewiswch un yn unig)** | Ffermio | |
| | Coedwigaeth | |
| | Yr Amgylchedd | |
| | Milfeddygaeth | |
| | Twristiaeth/Lletygarwch | |
| | Cadwyni cyflenwi bwyd a phren | |
| | Y Sector Cyhoeddus | X |
| | Y Sector Preifat | |
| | Y Trydydd Sector | |
| | Undebau Llafur/Cynrychiolydd | |
| | Ymchwil/Byd Academaidd | |
| | Arall | |

| | | |
|---|---|---|
| **Os ydych wedi nodi eich bod yn ffermio, nodwch brif weithgaredd eich fferm (dewiswch un yn unig)** | Defaid | |
| | Gwartheg | |
| | Fferm odro | |
| | Ffermio âr | |
| | Garddwriaeth | |
| | Dofednod | |
| | Cymysg | |
| | Arall | |

| | | |
|---|---|---|
| **Oes gennych hawliau i bori stoc ar dir comin?** | Oes | |
| | Nac oes | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n ffermwr tenant?** | Ydw | |
| | Nac ydw | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n derbyn taliad o dan y PAC?** | Ydw | |
| | Nac ydw | |

| | | |
|---|---|---|
| **Os ydych yn ymateb fel unigolyn, ym mha grŵp oedran ydych chi?** | O dan 18 | |
| | 18-34 | |
| | 35-49 | |
| | 50-64 | |
| | 65+ | |

**Sut i ymateb**

Dylech chi gyflwyno eich ymatebion erbyn **26 Mawrth** i

Yr Is-adran Diwygio Rheoli Tir
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Dylid anfon ymatebion sydd wedi'u cwblhau'r electronig at:
AgricultureWalesWhitePaper@gov.wales
PapurGwynAmaethCymru@llyw.cymru

**Diwygio Rheoliadau**

1. Beth yw'ch barn chi am:
(a) Y ffordd rydym am fynd ati i greu Safonau Gofynnol Cenedlaethol?

(b) Yr angen am hyblygrwydd i allu diwygio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol pan fo angen? A oes angen ystyried unrhyw beth arall?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

a) Mewn egwyddor, rydym yn derbyn y dadleuon dros gadw'r safonau presennol a'u gwneud yn gliriach drwy dynnu'r rheoliadau ynghyd ar ffurf Safonau Gofynnol Cenedlaethol o dan un ddeddfwriaeth newydd. Nodwn nad yw'r ddogfen ymgynghorol yn manylu ynghylch sut yn union caiff y safonau hyn eu monitro a'u gorfodi, a byddai gennym ddiddordeb cymryd rhan yn y trafodaethau hyn maes o law er mwyn sicrhau ystyriaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg.

Cyfeirir at y nod o greu 'cae chwarae gwastad ledled Cymru ar gyfer pob busnes sy'n rheoli tir amaethyddol' drwy'r gyfundrefn reoleiddio arfaethedig. Heb weld manylion sut caiff y safonau eu rheoleiddio, mae'n anodd gweld i ba raddau y bydd hyn yn adlewyrchu anghenion y ffermydd teuluol, llai, sy'n bwysig i gynnal hyfywedd yr iaith Gymraeg. Beth fyddai effaith gorfod cydymffurfio â'r gofynion arnynt hwy o'i gymharu â busnesau amaethyddol llawer iawn mwy er enghraifft; a beth fydd effaith hyn ar eu gallu i gystadlu yn y farchnad. Byddwn yn dymuno gweld hyblygrwydd yn y gofynion er mwyn sicrhau tegwch ac ecwiti i'r ffermydd llai, a chydnabyddiaeth yn ogystal o'u cyfraniad ehangach i ddiwylliant a'r Gymraeg.

b) Rydym yn derbyn mai manylion technegol ynghylch rheoli'r tir fydd sail y Safonau Gofynnol Cenedlaethol arfaethedig, ac y gallasai newidiadau arwyddocaol yn ymwneud â deddfwriaeth, arferion ffermio, newid hinsawdd ac ati ofyn am hyblygrwydd i Weinidogion Cymru eu haddasu drwy is-ddeddfwriaeth. Credaf y dylid cynnwys newidiadau sosio-economaidd arwyddocaol yn y rhestr o resymau pam fod hyblygrwydd i addasu yn bwysig yn ogystal. Byddai hyn yn gyson â'r ddyletswydd sosio economaidd sydd ar weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill o 31 Mawrth 2021.

2. Beth yw’ch barn chi ynghylch:
(a) Sut gall cyngor ac arweiniad helpu ffermwyr i ddeall y Safonau Gofynnol Cenedlaethol; ac

(b) Yr ystyriaethau eraill wrth roi cyngor ac arweiniad? Er enghraifft, ffurf yr arweiniad, pwy ddylai ei ddarparu, hyd a lled yr arweiniad a sut gallai gwasanaethau cynghori helpu ffermwyr.

Rhowch sylwadau i ategu’ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl sy’n gysylltiedig â’r ystyriaethau hyn

a) Nodwn fod yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn cyfeirio at y ffaith y bydd y cyngor a chanllawiau ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi ‘yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg a bydd unrhyw wasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog’. Er ein bod yn croesawu’r ymrwymiad, credwn y dylid fod wedi ei gynnwys yn rhan o’r ddogfen ymgynghori ei hun yn hytrach nag mewn atodiad, a byddwn am weld ymrwymiad clir ar wyneb y Bil arfaethedig y bydd unrhyw gyngor a chanllawiau ar gael yn y Gymraeg.

Mae’r Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn nodi mai 7.51% o ffermwyr sydd wedi gofyn am gael cyfathrebu yn Gymraeg wrth gysylltu â Thaliadau Gwledig Cymru, ond nad yw hyn yn adlewyrchu lefel yr ymgysylltu yn Gymraeg; ‘gyda llawer sydd wedi gofyn am ohebiaeth yn Saesneg yn troi'n ôl i'r Gymraeg wrth gael sgyrsiau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn’. Dylid ystyried yn ofalus y ffigyrau hyn a dod i ddeall pam bod ffermwyr yn dewis troi at wasanaeth Saesneg yn ysgrifenedig, ond Cymraeg ar lafar. Dylid ceisio lleihau’r bwlch hwn rhwng y ddau gyfrwng a gosod targedau ar gyfer cynyddu’r lefelau sy’n dewis derbyn gwasanaethau ysgrifenedig yn y Gymraeg. Rydym wedi clywed tystiolaeth anecdotaidd nad yw’r deunydd Cymraeg mor hygyrch â’r Saesneg – nad yw mor rhwydd cael ato a’i fod yn cynnwys iaith gymhleth sy’n tanseilio hyder defnyddwyr. Dylid annog pobl i ddefnyddio’r gwasanaeth drwy roi hyder iddynt ei fod yn safonol ac yn hawdd ei ddefnyddio yn Gymraeg. Byddai hyn hefyd yn cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o ddyblu faint o bobl sy’n defnyddio’r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd erbyn 2050.

b) Noda’r Asesiad Effaith ar y Gymraeg ymhellach bod gwasanaeth cynghori presennol Llywodraeth Cymru i'r sector, Cyswllt Ffermio, ‘yn mynd y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn ddwyieithog fel arfer, gyda llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu darparu yn Gymraeg fel y brif iaith’ a bod ‘hyn yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir’. Yn sicr, ag ystyried pwysigrwydd y Gymraeg i’r sector a’r ffaith mai’r Gymraeg yw iaith naturiol bob dydd canran uchel o amaethwyr yng Nghymru, byddwn am weld yr ymrwymiad i gyfathrebu yn Gymraeg fel prif iaith yn parhau ac yn cryfhau o dan unrhyw drefniadau newydd. Er hyn, rhoddir pwyslais ar gynnal gwasanaeth ac arfer sy’n bodoli yn barod yn hytrach nag ar sicrhau twf. Credwn y dylid datgan ymrwymiad clir y bydd y gwasanaeth cynghori yn mynd ati i wella capasiti a sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu amaethyddol a chynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn y sector.

3. Beth yw’ch barn am y cynigion ynghylch sancsiynau sifil er mwyn gallu gorfodi’r rheoliadau mewn ffordd gymesur? A oes ystyriaethau eraill sydd eu hangen?

Rhowch sylwadau i ategu’ch barn e.e. manteision ac effeithiau posib sy’n gysylltiedig â’r ystyriaethau hyn.

Nid oes gennym sylw penodol ar y sancsiynau y tu hwnt i dynnu sylw at yr angen i ystyried effaith y sancsiynau ar ffermydd teuluol llai o'i gymharu â busnesau amaethyddol mawr. Noda'r ddogfen ymgynghorol y bydd 'gwerth ariannol y gosb yn gymesur', ond nid yw'n glir a yw hyn yn golygu cymesur â'r tramgwydd ynteu gymesur ag incwm y tramgwyddwyr a'u gallu i gydymffurfio. Credwn y dylid rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau tegwch ac ecwiti i'r ffermydd teuluol llai.

**Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) – Cymorth yn y Dyfodol**

4. Beth yw'ch barn am y dibenion a gynigir ar gyfer talu ffermwyr i SLM? A oes dibenion eraill yn eich barn chi sydd angen eu hystyried?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd a bod gan bob un ohonom, yn unigolion, yn llywodraeth, yn sefydliadau a sectorau rôl i'w chwarae yn wyneb yr argyfwng hinsawdd. Yn hyn o beth, rydym yn croesawu gweld yr ymrwymiad i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r sector amaeth yn y ddogfen ymgynghorol. Er hyn, rydym o'r farn nad yw'n cydnabod y berthynas glos rhwng datblygu'r amgylchedd yn gynaliadwy a gwarchod diwylliant a iaith leiafrifol. Nid mater o'r naill beth neu'r llall ydyw, ac mae'r ddau yn mynd law yn llaw â'i gilydd. Mae nifer o astudiaethau yn cyfeirio at y gydberthynas yma rhwng iaith a datblygu cynaliadwy, er enghraifft "Linguistic diversity of natural UNESCO world heritage sites: bridging the gap between nature and culture", lle ceir argraffiadau am rôl ieithoedd cynhenid ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a datblygu cynaliadwy.

Mewn ymatebion i ymgynghoriadau blaenorol, rydym wedi tynnu at bryderon bod y cyfeiriad polisi presennol yn gogwyddo tuag at sicrhau manteision amgylcheddol ar draul manteision ieithyddol, ac nid ydym yn gweld fod llawer o newid wedi bod i adlewyrchu ein sylwadau erbyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol hon.

O'n trafodaethau gyda'r undebau amaethyddol, deallwn eu bod hwythau o'r farn fod canolbwyntio ar fanteision amgylcheddol yn y polisi arfaethedig yn digwydd ar draul manteision cymdeithasol ac economaidd i raddau helaeth, a bod hyn yn peri pryder sylweddol i'w haelodau. Tynnwn eich sylw yn ogystal at yr adroddiad 'Gweledigaeth ar gyfer Cymru wledig: Cynigion polisi a gofynion allweddol' Fforwm Wledig Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru (Ionawr 2021): 'Nid yw ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir' yn cydnabod pwysigrwydd diogelu'r cyflenwad bwyd er lles y cyhoedd, gyda gogwydd tuag at fesurau amgylcheddol fel sail i ymyriadau datblygu gwledig. Mae'r methiant i gydnabod yr angen i gefnogi mesurau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn bygwth y lifrau ariannol sydd angen i lywio'r economi wledig tuag at ddyfodol bywiog.'

Drwy wneud darpariaeth yn y Bil i sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel prif amcan polisi amaethyddol yn y dyfodol a darparu ffrwd incwm ar gyfer mynd i'r afael â'r uchelgais amgylcheddol yn unig, teimlwn fod cyfle yn cael ei golli i wobrwyo nifer o fanteision cymdeithasol ac economaidd eraill y sector, gan gynnwys manteision a fyddai o fudd i'r Gymraeg.

Noda'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg y bydd rheoli eu tir yn gynaliadwy yn galluogi 'ffermwyr […] i ddiogelu hyfywedd ffermio yng Nghymru yn y dyfodol, gan gefnogi cydnerthedd cymunedau Cymraeg eu hiaith' a 'helpu i gefnogi cydnerthedd hirdymor cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith drwy sicrhau bod modd parhau i ffermio'r tir yn y dyfodol'. Gan nad oes, hyd y gwelwn, unrhyw fanylion na thargedu ar gyfer cyflawni hyn, bydd yn anodd iawn mesur llwyddiant. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (2019) awgrymasom eich bod yn cynllunio'n fanwl sut y bydd y cynigion yn cyfrannu tuag at fanteision o ran y Gymraeg. Yn benodol, cyfeiriwyd at fframwaith Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r fformiwla maent yn eu cynnig i awdurdodau lleol i gynyddu'r niferoedd o ddisgyblion sydd mewn addysg Gymraeg yn 7 oed i gyd-fynd â thargedau strategaeth Cymraeg 2050. Gyda hynny mewn golwg, roeddem yn awgrymu ystyried datblygu fformiwla gyffelyb ar gyfer cyfraniad cymunedau amaethyddol at gyrraedd targed 2050 ac ymgorffori hynny o fewn ffrwd incwm cynllun Rheoli'r Tir yn Gynaliadwy. Un dull posibl fyddai drwy gydweithio cymunedol - fel y nodir ym mhwynt 2.74 y ddogfen ymgynghorol byddwch yn rhoi 'cefnogaeth i ffermwyr gydweithredu â'i gilydd ac ag eraill i Reoli'r Tir yn Gynaliadwy'.

Rydych yn cyfeirio at y cyngor ac arweiniad fydd ar gael i ffermwyr yn y cyswllt hwn, gan ddatblygu 'arferion gorau'r gwasanaeth cynghori presennol [...] i ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr a thymor hir i ffermwyr'. Wrth ddatblygu'r gwasanaeth hwn, bydd angen i chi ystyried y canfyddiadau y cyfeiriwch atynt yn yr Asesiad Effaith o'r Gymraeg, a'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd, a'r graddau y mae gwasanaethau ar gael yn gyfan gwbl ac yn hygyrch drwy gyfrwng yr iaith. Cyfeiriwn at ein hateb i Gwestiwn 1 lle rydym yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod unrhyw ddeunydd Cymraeg yn safonol a hygyrch i ddefnyddwyr, a bod gennych gynllun ar gyfer hybu'r gwasanaethau Cymraeg a thargedau i gynyddu'r defnydd a wneir ohonynt.

Rhoddir pwyslais yn y ddogfen ymgynghori hefyd ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu amaeth ac y byddwch yn gweithio'n 'glos ag academia i wneud yn siŵr bod ffermwyr yn cael y cyfle i ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus'. Bydd angen sicrhau bod cyfleoedd datblygu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael, yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu amaeth. Byddai lle amlwg felly ichi drafod â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o safbwynt addysg Gymraeg yn y sector addysg bellach ac addysg uwch ac â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

**Y Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi**

5. Beth yw'ch barn chi am y blaenoriaethau a gynigir ar gyfer cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Mae'n siomedig nad oes cyfeiriad at y Gymraeg yn yr adran hon. Mewn ymatebion blaenorol i ymgynghoriadau (Brexit a'n Tir 2018 a Ffermio cynaliadwy a'n tir 2019) rydym yn tynnu sylw at werth y Gymraeg fel arf marchnata unigryw all gynyddu potensial y farchnad. Nodwn yn yr ymateb y ceir cydnabyddiaeth gyffredinol fod y Gymraeg yn gallu cynorthwyo twf busnesau a datblygu cynnyrch arloesol. Yn benodol, ceir tystiolaeth helaeth am werth y Gymraeg at ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata yn y sector gweithgynhyrchu a marchnata bwyd a diod. Canfu ymchwil Comisiynydd y Gymraeg yn 2014, bod defnyddio'r Gymraeg yn gwneud i'r cynnyrch sefyll allan; yn atgyfnerthu delwedd brand; yn cynnig cyfleoedd i werthu mewn marchnadoedd newydd; ac yn cael ei gweld fel arwydd o ansawdd. Yn ôl ymchwil diweddarach i agweddau busnesau mawr, bach a chanolig yng Nghymru yn 2018 mae 82 y cant yn cytuno'n gryf neu i raddau fod defnydd o'r Gymraeg yn ychwanegu gwerth ar gynnyrch neu wasanaeth; ac mae 84 y cant yn cytuno'n gryf neu i raddau fod defnydd o'r Gymraeg o fudd i frand y busnes. Ategir y casgliadau hyn hefyd gan ganfyddiadau gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru.

Er bod 2.85 yn cyfeirio at hyblygrwydd i addasu'r gefnogaeth yn sgil 'blaenoriaethau newydd y Llywodraeth', credwn y dylid cyfeirio at y Gymraeg yn y Bil yn sgil y ffaith fod y flaenoriaeth eisoes wedi ei hadnabod yn strategaeth Cymraeg 2050.

Deallwn fod cynnig 2.88, sef rhoi pwerau i Weinidogion Cymru 'allu creu, gweinyddu a chau cynllun neu gynlluniau domestig mewn perthynas â datblygu  gwledig a'r gadwyn cyflenwi bwyd amaeth ehangach fydd yn galluogi ac yn cefnogi parhad Rheoli Tir yn Gynaliadwy' yn peri pryder i'r sector, ac yn arbennig i'r ffermydd teuluol llai sy'n cynnal beichiau'r cymunedau Cymraeg. Cyfeiriwn yn ôl at ein hateb i Gwestiwn 4 a'r pryder fod canolbwyntio ar fanteision amgylcheddol yn y Bil arfaethedig yn digwydd ar draul manteision cymdeithasol ac economaidd i raddau helaeth, a bod i hyn sgil-effaith bryderus i'r Gymraeg.

Yn ein barn ni, dylid cefnogi busnesau i fanteisio ar y gstratego economaidd a chymdeithasol a ddaw yn sgil defnyddio'r Gymraeg, ac y dylid ymrwymo i ddatblygu a chynorthwyo busnesau sydd yn gwneud hynny.

**Casglu a rhannu data**

6. Beth yw'ch barn chi am y dibenion a gynigir ar gyfer casglu, rhannu a chysylltu data?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Mae paragraff 2.94 y ddogfen ymgynghori'n amlinellu'r prif resymau dros gasglu data ar amaethyddiaeth a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig yng Nghymru, ac mae'r cynnwys 'ymchwil a dadansoddi i fwydo polisi amaeth' a 'monitro tueddiadau cenedlaethol'. Â'r cynigion ym mharagraff 2.102 ymlaen i restru'r prif bwrpas ar gyfer casglu, rhannu a chysylltu data, ac mae'r rhain yn cyfeirio at ffactorau fel 'hyrwyddo iechyd planhigion', 'hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid', 'lleihau effeithiau amgylcheddol' ymysg eraill. Nodwn fod data ynghylch y Gymraeg yn absennol o'r rhestr. Mae'n anodd gweld felly sut gellir monitro tueddiadau cenedlaethol o safbwynt y Gymraeg na chynnal dadansoddiad o sefyllfa'r iaith o fewn y sector er mwyn dylanwadu ar bolisïau yn y dyfodol heb gasglu'r sail dystiolaeth hon. Argymhellwn fod data am y Gymraeg yn dod yn rhan o'r data a gesglir.

7. Beth yw'ch barn chi am sefydlu cronfa ddata genedlaethol ar gyfer ffermydd a da byw?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Dim sylw. Gweler yr ymateb i Gwestiwn 6.

*Gan feddwl am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC):*

8. O ran y cynllun arfaethedig, beth yw'ch barn chi am y cynigion i ganiatáu i ffermwyr ddefnyddio'r data rydym yn eu casglu ar y fferm i dracio'u cynnydd a dangos eu bod yn gynaliadwy?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Dim sylw. Gweler yr ymateb i Gwestiwn 6.

*Gan feddwl am gydymffurfio â'r rheoliadau:*

9. Beth yw'ch barn am y cynigion ar gyfer monitro'n well y modd y cydymffurfir â'r rheoliadau?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Dim sylw. Gweler yr ymateb i Gwestiwn 6.

10. Beth yn eich barn chi sydd angen ei ystyried yn y dyfodol er mwyn i reoleiddwyr allu monitro rheoliadau’n effeithiol?

Dim sylw. Gweler yr ymateb i Gwestiwn 6.

**Coedwigaeth a choetir**

11. Beth yw'ch barn chi am y diwygiadau a gynigir i'r ddeddfwriaeth goedwigaeth?

Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Yn gysylltiedig i raddau â’n hateb i Gwestiwn 4, rydym yn bryderus am effaith y cynigion ar y ffermydd teuluol, llai, sy’n cynnal nifer o gymunedau Cymraeg. Rhagwelwn y bydd y cynigion o fwy o fantais i berchnogion tiroedd mawr. Oherwydd bod llai o diroedd gan y ffermydd teuluol ar y cyfan, mae’n bosibl na fyddai modd iddynt neilltuo cyfran o’u tir ar gyfer plannu coed heb fod hynny’n cael effaith andwyol ar eu gallu i gynhyrchu bwyd. Mae gennym bryderon, felly, am effaith y cynlluniau a’r sancsiynau cysylltiedig ar barhad y gymuned amaethyddol draddodiadol, Gymraeg ei hiaith, ac ar hyfywedd y cymunedau gwledig yn fwy cyffredinol. Nid ydym yn teimlo fod yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn mynd i’r afael â’r her yma, a bod yna ganlyniadau mwy niweidiol na chadarnhaol i’r Gymraeg yn debygol yn sgil mabwysiadu’r polisi.

Argymhellwn fod cymorth ariannol ar gyfer rhai manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach, gan gynnwys canlyniadau cadarnhaol i’r Gymraeg, yn cael eu cyflwyno i gyd-fynd â chymorth ar gyfer manteision amgylcheddol.

12. Beth yw’ch barn chi ynghylch sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi perchenogion tir yng Nghymru i elwa ar farchnadoedd carbon ar gyfer plannu coed?

Dim sylw

**Tenantiaethau**

13. A ydych chi'n credu y dylai'r trefniadau datrys anghydfodau a ddisgrifir yn y cynigion gael eu hestyn i'r FBTs?

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. i ba raddau y mae hon yn broblem ar hyn o bryd, y manteision a'r effeithiau tebygol.

| |
|---|
| |
| Dim sylw |

14. A ydych chi’n credu y bydd yna adegau pan fyddai’r landlord angen ddefnyddio yr un trefniadau datrys anghydfodau a ddisgrifir uchod hefyd?

Rhowch dystiolaeth i ategu’ch barn e.e. i ba raddau y mae hon yn broblem ar hyn o bryd, y manteision a’r effeithiau tebygol.

Dim sylw

15. Yn eich barn chi, a fyddai’n briodol caniatáu cytundebau SLM ar y cyd rhwng landlordiaid/tenantiaid?

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. maint yr angen, y manteision a'r effeithiau tebygol.

Dim sylw

**Iechyd a Lles Anifeiliaid**

16. Beth yw'ch barn am y cynigion i roi pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru i:
    a) Sefydlu Ardaloedd Rheoli Symudiadau i reoli symudiadau anifeiliaid, semen, embryonau, cynnyrch anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu

bethau eraill e.e. offer a chyfarpar, pan geir bygythiad o glefyd anifeiliaid arwyddocaol newydd lle na cheir fawr o bwerau os o gwbl i wneud hynny ar hyn o bryd?

b) Enwi ‘anifail’, ‘anifail a ffermir’, ‘da byw’, ‘anifail anwes’, ac ‘anifeiliaid a fwriedir at ddibenion amaethyddol’, y tu hwnt i’r diffiniadau traddodiadol caeth presennol i sicrhau y rhoddir mesurau rheoli clefydau anifeiliaid ar waith mewn ffordd briodol a hyblyg mewn perthynas ag unrhyw rywogaeth o anifail cadw lle ceir perygl posibl o glefyd?

Rhowch sylwadau i ategu’ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Dim sylw

**Maglau**

17. Beth yw’ch barn am y cynnig i ddarparu pŵer er mwyn cael mwy o reolaeth ar faterion fel cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau? A oes angen pŵer o’r fath? Os nad oes, pam? Os oes, pa faterion yn eich barn chi y dylai’r pŵer fynd i’r afael â nhw?

Dim sylw

**Asesiad Integredig o Effeithiau**

18. Beth yw'ch barn chi am yr effeithiau rydym wedi'u nodi yn yr asesiad integredig o'r effeithiau? A oes angen ystyried effeithiau eraill?

Pan fydd sefydliad sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, mae'n rhaid iddo ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.Er mwyn darparu arweiniad i sefydliadau ar ofynion a goblygiadau'r safonau llunio polisi, rydym wedi paratoi dogfen gyngor arferion da. Mae'r ddogfen yn darparu arweiniad ar ystyr 'penderfyniad polisi', pryd a phwy ddylai ystyried effeithiau'r penderfyniad ar y Gymraeg, a methodoleg i gwblhau'r asesiad.

Nid ydym o'r farn fod yr asesiad effaith o'r Gymraeg yn ddigonol. Nid yw'n cynnwys y math o fanylder y buasem yn gobeithio ei weld mewn asesiad effaith trylwyr. Gan fod yna oblygiadau pellgyrhaeddol i'r Gymraeg yn sgil cyflwyno'r Bil a rhai cynigion yr ydym o'r farn fyddai'n cael effaith andwyol ar yr iaith, buasem wedi disgwyl gweld pob cynnig yn cael ei gyflwyno a'i sgorio yn ôl statws ei effaith ar y Gymraeg, a bod mesurau lliniaru wedi eu hadnabod ar gyfer unrhyw effeithiau andwyol.

Cyn cyflwyno'r Bil yn y Senedd nesaf, credwn y bydd angen cynnal ymarferiad o'r math hwn. Byddwn yn barod iawn i drafod ymhellach â chi wrth iddo gael ei baratoi.

**Y Gymraeg**

19. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cynigion y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
    Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut y gellid gynyddu effeithiau

positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Mae'n hymateb yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar effeithiau ar y Gymraeg. Dyma grynhoi ein prif bwyntiau:

- Yr effaith ar y ffermydd teuluol sy'n cynnal cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith yn sgil rhoi'r pwyslais ar fanteision amgylcheddol ar draul manteision sosio-economaidd.

- Y diffyg cydnabyddiaeth o werth y Gymraeg i ddangos cynnyrch premiwm, a diffyg cyfle i fanteisio ar wneud y gorau o'r nod unigryw hwn.

- Yr angen i gynyddu a datblygu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sector drwy'r gwasanaethau cynghori a'r cynlluniau datblygu sgiliau.

- Yr angen i gyflwyno ffrwd ariannol a fyddai'n gwobrwyo busnesau am fanteision ieithyddol yn ogystal â manteision amgylcheddol.

- Yr angen i gasglu data am y Gymraeg o fewn y sector er mwyn gosod sail dystiolaeth a fyddai'n llywio datblygiadau polisi yn y dyfodol.

- Angen datblygu asesiad effaith trylwyr sy'n mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd i'r Gymraeg fesul cynnig, ac adnabod mesurau lliniaru i unrhyw effeithiau negyddol.

20. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Unrhyw sylwadau eraill**

21. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny: